Darllenwch y memo drafft yma. Gan mai drafft ydyw, mae nifer o gamgymeriadau ynddo.

**MEMO**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **At:** | Pob aelod o staff | **Oddi wrth:** | Lois Llwyd |
| **Dyddiad:** | Medi 20 | **Pwnc:** | Codi arian |

Mae'n mis Medi unwaith eto ac felly mae'n bryd i ni ddechrau meddwl am godi arian ar gyfer Plant mewn Angen.

Fel rydych chi'n gwybod codon ni dros £50,000.00 fel cwmni, y llynnedd - diolch i'ch gwaith caled chi.

Oes gan rai ohonoch chi syniadau ynglŷn â sut gallwn ni godi cymaint – os nad ………. – eleni eto? Dw i wedi bod yn gwneud ychydig o waith ymchwil i weld oes ffyrdd newydd o godi arian a dw i wedi dod ar draws un syniad diddorol iawn, sef Digwyddiad Peidiwch â Dod.

Dyma sut mae'n gweithio:

- Rhaid i ni feddwl am ddigwyddiad cyffrous fydd yn apelio at bobl, e.e. parti gyda bwyd hynod o flasus a bandiau enwog, mewn lle moethus yn yr ardal. Rhaid i bopeth fod yn wych!
- Rhaid i ni feddwl faint fydd pris tocyn
- Yna, rhaid i ni wneud gwahoddiadau hyfryd a oedd yn denu'r llygad. Ar waelod y gwahoddiad, byddwn ni'n dangos bod y digwyddiad yma ddim yn mynd i gael ei gynnal gan ei fod yn Ddigwyddiad Peidiwch â Dod!
- Yna, rhaid i ni bostio'r gwahoddiadau at bobl amlwg yn y gymdeithas, e.e. Aelod Seneddol, Aelod Cynulliad, pennaeth cwmni radio lleol, rheolwyr cwmnïau yn yr ardal ac ati. Y gobaith yw y byddan nhw'n prynu tocynnau i'r digwyddiad er na fydd y digwyddiad yn cael ei gynnal.

Os ydych chi'n gofyn pam fydd y bobl yma'n debygol o brynu tocynnau i rywbeth fydd ddim yn digwydd, mae'r ateb yn syml:

- Yn gyntaf, byddan nhw'n meddwl ein bod ni wedi meddwl am ffordd dda o godi arian (gobeithio!)
- Yn drydydd, mae llawer o'r bobl yma'n rhy brysur i ddod i ddigwyddiadau codi arian beth bynnag ond efallai y byddan nhw'n fodlon rhoi cyfraniad drwy dalu am docyn.

Beth ydy'ch chi'n ei feddwl.

Oes gan unrhyw un syniadau eraill, tybed? Rhowch wybod i mi cyn gynted ………… phosib os gwelwch yn dda ac erbyn Medi 30 fan bellaf.

Diolch.

Lois